ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR TREF ABERTEIFI

BLWYDDYN DDINESIG 2022-23

Rhagymadrodd

Mae Cyngor Tref Aberteifi yn gwasanaethu ardal Aberteifi a'i phoblogaeth o tua 4,300 o drigolion. Mae ganddi 14 o Gynghorwyr, sy'n gwasanaethu wardiau Mwldan (6 chynghorydd) Rhyd-y-Fuwch (4 cynghorydd) a Teifi (4 cynghorydd).

Y Cynghorwyr Tref yn ystod cyfnod 2022/23 oedd:

Trystan Phillips (Maer)	John Adams-Lewis
Siân Maehrlein (Dirprwy Faer)	David Maehrlein
Clive Davies	Catrin Miles
Elaine Evans	Nicholas Bolton
Olwen Davies	Stephen Greenhalgh
Teresa Harries	Richard Jones
Philippa Noble	Marilyn Farmer (Ymddiswyddod Ebrill 2023)

Mae'r Cyngor Tref yn cyflogi un aelod o staff rhan amser – Clerc y Dref, Eleri Maskell. Maent hefyd yn cyflogi John Morris, bachan deche, ar sail hunangyflogedig. Cyngor Tref Aberteifi sy'n gyfrifol am:

- gaeau Brenin Siôr V a'r ardaloedd chwarae cyfagos;
- maes chwarae Pentop;
- goleuadau Nadolig;
- meinciau a dodrefn stryd;
- arddangosfeydd a basgedi blodau;
- darparu grantiau ariannol a chymorth arall i sefydliadau lleol ac achosion da;

Amcanion Cyngor Tref Aberteifi

Darparu gwasanaeth da a gwerth ei arian i bobl Aberteifi drwy wella lles ledled y dref.

Parhau i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2022-2027 (mabwysiadwyd cynllun blynyddol cychwynnol ym mis Rhagfyr 2021).

Creu strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori i alluogi'r cynghorwyr a'r clerc i ymgysylltu'n eang â chymunedau amrywiol Aberteifi, y genhedlaeth iau a hŷn, a nodi blaenoriaethau o'r ymgysylltu a'r ymghynhori hwnnw.

Cyfrannu yn helaeth at "Gynllun Lle" ar gyfer Tref Aberteifi, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Creu "Cynllun Lle Digidol" ar gyfer Tref Aberteifi a pharhau i arwain y ffordd gyda thechnolegau newydd fel y "Rhyngrwyd Pethau".

Ail-agor y toiledau yn Chancery Lane o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref gan ail-sefydlu gwasanaeth hanfodol i ddod ag ymwelwyr i ganol y dref, mae hyn yn parhau i fod yn waith ar y gweill, ond yn edrych yn bositif ar gyfer eleni.

Parhau i weithio'n agos gyda chynghorau tref a chymuned eraill.

Crynodeb ariannol

Praesept y Cyngor yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor ac mae'n cynrychioli swm y dreth gyngor a delir gan aelwydydd yn Aberteifi a ddyrennir i'r Cyngor Tref. Y praesept blynyddol ar gyfer 2022-23 oedd £83,995.47 am y chweched flwyddyn yn olynol. Mae cyfradd treth gyngor eiddo band D yn cyfateb i £46.96 fesul cartref. Incwm arall a dderbyniwyd eleni yw £1050 mewn rhent gan y Clwb Bowlio a'r Clwb Rygbi a £3384 mewn cyllid grant. Mae adroddiad incwm a gwariant llawn i'w weld ar ein gwefan. Mae'r cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn o £40,000 i ddelio ag argyfyngau annisgwyl.

Aeth cyfanswm o £21,386 i elusennau ac achosion da yn y dref y llynedd. Roedd y buddiolwyr yn cynnwys Theatr Mwldan, Canolfan Cyngor ar Bopeth, Castell Aberteifi, Dydd Sadwrn Barlys, Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi, 3ydd Sgowtiaid Môr Aberteifi, Canolfan Plant Jig-so Aberteifi, Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru, Clwb Pêl-droed Aberteifi, Clwb Rygbi Aberteifi, Theatr Byd Bychan, Clwb Pêl-droed Iau Llandudoch, Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Rhannwyd cronfa'r Maer rhwng y gost o gyflenwi cinio Nadolig dau gwrs i'n trigolion mwy bregus a chlwb Nofio Aberteifi.

Nodyn personol gan y Maer ar ddiwedd ei blwyddyn ddinesig.

Mae'n anodd iawn i gredu fod 12 mis wedi hedfan heibio mor sydyn; hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi fy nghefnogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn aelodau'r Cyngor, ein Clerc trefnus a chefnogol, a theulu a ffrindiau sydd hefyd wedi bod yn gefn i mi. Diolch i bawb.

Mae prysurdeb cymuned wedi ail-afael yn ystod y cyfnod yma, wrth i bawb geisio canfod llwybr a ffordd newydd o fyw wedi cyfnod o gyfyngiadau a helbul yn genedlaethol.

Rydym oll yn gorfod addasu i ffordd newydd o fyw, gyda chostau byw dychrynllyd o uchel wedi gosod straen aruthrol ar ein cymdeithas. Roedd ymwrthod â'r drefn arferol i gael lluniaeth a bwyd wedi'r seremoni sefydlu llynedd, a chamu i mewn i dalu am giniawau Nadolig i'r henoed yn gam gwbl naturiol, yn enwedig wrth ystyried y dioddef sydd yn ein hardal; er ein bod mewn ardal o harddwch arbennig, mae tlodi a difreintrwydd yn ein cymdeithas yn golygu fod angen ystyriaeth arbennig a gofalus gyda'n defnydd o unrhyw arian cyhoeddus.

Credaf yn gryf fod y pwll nofio yn adnodd hollbwysig yn y dref, ac roeddwn yn falch i allu cefnogi'r pwll hefyd gyda rhodd ariannol; mae'r pwll yn adnodd gwerthfawr wrth helpu i annog lles, iechyd meddwl a chorfforol a ffitrwydd. Dwi'n gobeithio ein bod mewn camau cynnar llwybr a fydd yn ein harwain at allu datblygu'r pwll a'r safle i mewn i ganolfan cyfoes ac effeithiol ar gyfer ein cymuned leol, a'r gymuned ehangach.

Hoffwn ddymuno'n dda i bawb o fewn ein cymuned arbennig yn Aberteifi, ac edrychaf ymlaen at barhau i fod yn aelod ar ein cyngor yn y dref. Braint oedd cael arwain y cyngor am y flwyddyn, ac edrychaf ymlaen at chwarae fy rhan unwaith eto, a sicrhau mai yno i leisio barn y bobl leol – ac nid agenda na theimladau personol – yw diben ein gwaith.

Diolch yn fawr.

Y Cynghorydd Trystan Phillips.

<u>Rhoddion y Maer trwy gydol 2022/2023:</u>

Dyddiad	**Gweithgaredd**	**Maint**
15/05/22	Gwasanaeth RNLI - Poppit	£40
26/06/22	Sgwar Finch i gwrdd â teulu newydd o Syria a chasglu ar eu cyfer	£20
02/08/22	Sioe Aberteifi	£50
20/08/22	Draig - anrheg ar gyfer gefeillio Brioude	£80
18/11/22	Gwasanaeth sefydlu Maer Tidrath - casglu ar gyfer yr RNLI	£100
24/11/22	Cantorion Aberteifi yn perfformio'r Meseia	£50
01/12/22	Ffabl Nadolig Castell Aberteifi	£22
18/12/22	Gwasanaeth Nadolig Santes Fair Aberteifi (casgliad)	£20
18/12/22	Gwasanaeth Nadolig Llandudoch (casgliad)	£20
18/01/23	Rhodd i fanc bwyd Aberteifi (gyda chasgliad o wasanaeth Nadolig Ysgol Penparc)	£100
09/04/23	Gwasanaeth Pasg Santes Fair Aberteifi (casgliad)	£20
29/04/23	Rhodd casgliad Sadwrn Barlys	£100
	Cyfanswm	£622